Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Adolygiad Blynyddol 08/09

Pobl hŷn yn ganolbwynt

Fformatau hwylus

Os hoffech gael copi o'r ddogfen hon ar ffurf Braille, print bras neu sain, cysylltwch â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Cysylltwch â ni drwy neges e-bost i gofyn@olderpeoplewales.com neu drwy ffonio 08442 640670

Cynnwys

Rhagair 2

Yr hyn y mae pobl hŷn wedi'i ddweud wrthon ni 3

Arian ... 3
Gofal ... 5
Tai ... 6
Iechyd ... 7
Gwahaniaethu ... 8
Trafnidiaeth ... 8

Gwybodaeth ac Ymholiadau 9

Ein gwaith ni o dan bob un o'n swyddogaethau cyfreithiol 11

Hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru ... 11
Talu am Ofal ... 11
Tlodi Tanwydd ... 12

Hybu darpariaeth cyfleoedd i bobl hŷn yng Nghymru, a dileu gwahaniaethu annheg yn eu herbyn 13

Y Mesur Cydraddoldeb ... 13
Cynllun Cydraddoldeb Sengl Llywodraeth Cynulliad Cymru ... 14

Hybu'r arferion gorau wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru 15

Iechyd ... 15
Cau Cartrefi Gofal ... 15

Adolygu pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru 16

Cam-drin Pobl Hŷn ... 16
Deddfwriaeth ar Ofalwyr ... 16

Cerrig milltir – gweithgareddau mewnol 18

Y tu hwnt i Gymru 19

Rhagolwg gan y Comisiynydd 20

Diolch a chydnabod 21

Rhagair

Cafodd rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ei chreu gydag ystod o bwerau i helpu i wella bywydau pobl hŷn yng Nghymru. Dyma'r Comisiwn cyntaf o'i fath yn y byd ac rydyn ni'n arloesi gwaith a all gael ei ddilyn yn rhyngwladol. Bu llawer o grwpiau ac unigolion yn gweithio'n galed i ddod â'r swydd annibynnol hon i fodolaeth, ac mae pwerau'r Comisiynydd yn adlewyrchu eu bwriad difrifol, sef herio'r rhwystrau a'r gwahaniaethu sy'n wynebu pobl hŷn. Wrth ymgymryd â'm swydd, roeddwn i am gyflawni dwy dasg fawr. Yn gyntaf, roeddwn i am wrando ar bobl hŷn a dechrau gwneud gwahaniaeth i'r materion sydd o bwys. Yn ail, roeddwn i'n anelu at sefydlu corff a fyddai'n dod â'r ddeddfwriaeth a greodd fy swydd yn fyw, sy'n hanfodol ar gyfer ein llwyddiant yn y tymor hir.

Rwyf wedi'i gwneud yn glir bob amser mai barn a buddiannau pobl hŷn sy'n ganolog i'r Comisiwn. Nhw sy'n llywio'n holl flaenoriaethau a phenderfyniadau a nhw yw'n ffynhonnell fwyaf o gryfder ac awdurdod. Addewais y byddwn yn cysylltu â phobl hŷn yn uniongyrchol a thros y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi ymweld â llawer o bobl hŷn unigol a grwpiau o bobl hŷn ledled Cymru ac wedi siarad â nhw. Amrywiol iawn yw'r materion sydd wedi'u codi gyda mi, o drafnidiaeth anodd ei chyrraedd i'r addysg sydd ar gael, o'r argraff bod yna anghyfiawnder ynglŷn â thalu am ofal i'r angen i ddiogelu urddas a hybu parch. Mae gan bobl hŷn ystod o anghenion a dyheadau sydd mor amrywiol ag anghenion a dyheadau unrhyw grŵp arall. Rhaid inni barchu hyn a'i ddathlu.

Rwy'n credu y bydd newid ystyrlon yn digwydd os defnyddiwn ein pwerau statudol. Byddaf yn parhau i hybu agwedd gadarnhaol at heneiddio, sicrhau bod gwasanaethau'n mynd ati'n gyson i roi'r arferion gorau ar waith a gweithio tuag at ddileu gwahaniaethu ar sail oed. Byddaf yn egluro bod rhaid i bolisïau sy'n effeithio ar bobl hŷn adlewyrchu Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Personau Hŷn.

Mae'r gwaith rydyn ni'n ei wneud i greu Comisiwn o'r safon orau yn y byd yn holl-bwysig fel sail i'n llwyddiant yn y dyfodol. Mae wedi bod yn flwyddyn gyntaf gyffrous, ymestynnol a chadarnhaol iawn. Megis dechrau y mae'n gwaith.

Ruth Marks
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Yr hyn y mae pobl hŷn wedi'i ddweud wrthon ni

Mae'r Comisiwn mewn safle unigryw i wrando ar bobl hŷn a chyfleu eu blaenoriaethau allweddol i wneuthurwyr penderfyniadau. Dyma'r heriau allweddol sydd yn ôl pobl hŷn yn eu hwynebu yng Nghymru heddiw.

Arian

Egwyddor 1 y Cenhedloedd Unedig: Dylai personau hŷn gael mynediad at fwyd, dŵr, cysgod, dillad a gofal iechyd digonol a hynny drwy ddarpariaeth ar gyfer incwm, cymorth y teulu a'r gymuned a hunangymorth.

Cysylltodd llawer o bobl â ni ynghylch her byw ar incwm gosod, yn enwedig wrth inni weld biliau tanwydd yn codi'n aruthrol ar ddiwedd 2008. Roedd pobl yn dweud wrthon ni eu bod yn wynebu dewis rhwng bwyta neu gynhesu eu cartrefi.

Mae pobl wedi dweud wrthon ni fod arnyn nhw angen dybryd am gynnydd yn y pensiwn sylfaenol i'w helpu i sicrhau ansawdd bywyd resymol. Maen nhw hefyd am gael gwybodaeth well am y gwasanaethau a'r budd-daliadau y mae ganddyn nhw hawl i'w cael.

> "Ces i lythyr gan fy nghyflenwr ynni yn dweud bod fy mil ynni yn codi 29%... Mae hyn yn ergyd aruthrol i mi ac mae wir am fod yn gwestiwn o ddewis rhwng bwyd a gwres."

Gofal

Egwyddor 13 y Cenhedloedd Unedig: Dylai personau hŷn gael defnyddio lefelau priodol o ofal sefydliadol sy'n darparu amddiffyniad, adsefydliad ac ysgogiad cymdeithasol a meddyliol a hynny mewn amgylchedd trugarog a diogel.

Mae pobl hŷn wedi dweud wrthon ni eu bod yn gofidio'n fawr am sut i gael gofal, sut i fforddio talu am ofal ac ansawdd y gwasanaethau gofal y maen nhw'n eu cael. Wrth symud i mewn i ofal, mae gan bobl amryw o bryderon ynglŷn â'r gwasanaethau y maen nhw'n eu cael, gan gynnwys:

- Diffyg dewis o ran sut a pha bryd y mae eu gofal yn cael ei ddarparu.
- Dim digon o waith monitro annibynnol ar ddarpariaeth cartrefi gofal i sicrhau bod cynlluniau gofal yn cael eu cyflawni'n ddigonol.
- Ansawdd gwasanaeth gwael i rai pobl hŷn a diffyg llais annibynnol i gyfleu eu pryderon.

Mae llawer o bobl yn teimlo rhwystredigaeth eu bod wedi talu trethi ac wedi cynilo gydol eu hoes, ond yn dal yn wynebu ildio'u cartrefi er mwyn talu am ofal.

Bydd teuluoedd a gofalwyr yn cysylltu â ni yn aml, ar dân i gael sicrwydd bod eu hanwyliaid yn cael y gofal y mae arnyn nhw ei angen. Mae pobl yn poeni am ansawdd a chysondeb gofal.

Un thema isorweddol mewn llawer o'n gohebiaeth yw'r angen i sicrhau bod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch. Mae angen i'w dewisiadau a'u hoffterau gael eu gwerthfawrogi yn y broses o gynllunio gofal a'u hadlewyrchu yn y gofal y maen nhw'n ei gael wedyn.

Ruth Marks: "Rydyn ni i gyd, diolch i'r drefn, yn byw yn hirach ac yn iachach ac felly mae'n bwysig sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu creu sy'n trin pobl hŷn ag urddas a pharch."

"Dwi wedi gweithio drwy gydol f'oes, dwi wedi cynilo'n galed gydol f'oes – dydy hi ddim yn deg bod rhaid imi dalu am rywbeth ar ôl meddwl bod gen i hawl i'w gael."

"Rydyn ni am i Mam fod yn ddiogel a chael gofal da."

Tai

Egwyddor 5 y Cenhedloedd Unedig: Dylai personau hŷn gael byw mewn amgylcheddau sy'n ddiogel ac a all gael eu haddasu at ddewisiadau personol a newidiadau mewn galluoedd.

Mae pobl yn dweud wrthon ni eu bod yn awyddus i fyw yn eu cartrefi eu hunain cyn hired â phosibl.

Rydyn ni wedi cael gohebiaeth sy'n awgrymu bod addasiadau sy'n caniatáu i bobl aros yn eu cartrefi eu hunain yn cymryd amser hir iawn i'w gosod mewn rhai ardaloedd. Mae addasiadau prydion yn holl-bwysig i alluogi pobl i aros yn ddiogel gartref cyn hired â phosibl.

Mae pobl hŷn yn gofidio ynghylch cost cynnal eu heiddo, gan fod biliau am waith trwsio yn gallu bod yn ddegau o filoedd o bunnoedd. Gall pobl deimlo eu bod yn cael eu gorfodi i ail-forgeisio.

"Rwy'n byw yn y tŷ yma ers hanner can mlynedd. Dwy ddim am symud bellach – dyma fy ngartre i a dyma ble rwy'n moyn aros."

Iechyd

Egwyddor 11 y Cenhedloedd Unedig: Dylai personau hŷn gael mynediad at ofal iechyd i'w helpu i gadw neu adennill y lefel orau posibl o lesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol ac i atal neu ohirio dechreuad salwch.

Does dim syndod bod ar bobl hŷn eisiau gofal iechyd o ansawdd dda, mewn wardiau un rhyw, lle maen nhw'n cael eu trin ag urddas a pharch. Mae pobl hŷn am i weithwyr iechyd proffesiynol ofyn sut yr hoffen nhw gael eu cyfarch cyn defnyddio'u henwau cyntaf neu gyfarchion annwyl.

Ruth Marks: "Mae baglu a chwympo'n bryder gwirioneddol i bobl hŷn, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Mae angen i bawb wybod mor bwysig yw sicrhau mynediad da, o safbwynt corfforol ac yn weladwy, er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn osgoi cwympo ac yn cadw eu hiechyd, eu hannibyniaeth a'u lles."

Darganfu'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau fod 4,200 o bobl yng Nghymru yn torri clun bob blwyddyn. Mae'n frawychus y bydd 1 ym mhob 4 o'r bobl hyn yn marw o fewn 6 mis ac y bydd hanner y rhai sy'n goroesi yn methu adennill yr annibyniaeth a oedd ganddyn nhw o'r blaen.

"Dyw'r ysbytai a'r meddygfeydd ddim bob amser yn cydlynu â'i gilydd, sy'n gadael pobl ar eu pen eu hunain, yn ofnus ac yn rhwystredig iawn."

"Rwy'n gofidio am nifer y staff ar wardiau'r ysbytai – does dim pwynt rhoi bwyd a diod o flaen llawer o gleifion, mae angen help arnyn nhw neu maen nhw'n dioddef diffyg maeth."

Un her benodol yw gofal traed, oherwydd heb ymweliadau rheolaidd gan bodiatregydd mae llawer o bobl hŷn yn methu symud o gwmpas yn ddiogel ac maen nhw mewn perygl o faglu a chwympo.

"Mae'r podiatregydd wedi tynnu'n ôl o'n meddygfa ni ac wedi fy rhoi i ar y rhestr aros am ymweliad gartref, ac achos y diffyg arian maen nhw'n methu fy ngweld i'n ddigon aml i fi gael cerdded yn gyffyrddus."

Gwahaniaethu

Egwyddor 18 y Cenhedloedd Unedig: Dylai personau hŷn gael eu trin yn deg ni waeth beth fo'u hoed, eu rhywedd, eu cefndir hiliol neu ethnig, eu statws anabledd neu eu statws arall, a chael eu gwerthfawrogi yn annibynnol ar eu cyfraniad economaidd.

Mae pobl hŷn am weld diwedd ar wahaniaethu ar sail oed. Yn benodol, rydyn ni wedi clywed am wahaniaethu mewn addysg bellach, cyflogaeth a'r system fudd-daliadau.

Trafnidiaeth

Egwyddor 16 y Cenhedloedd Unedig: Dylai personau hŷn gael mynediad at adnoddau addysgol, diwylliannol, ysbrydol ac adloniadol y gymdeithas.

Mae llawer o bobl hŷn yn dibynnu ar gludiant cyhoeddus a theithio am ddim ar y bws yng Nghymru. Mae gwir angen cludiant cyhoeddus sy'n well, yn ddiogel, yn hygyrch, yn fforddiadwy ac yn ddibynadwy.

"Pam does neb yn sylweddoli bod dysgu yn golygu mwy na sgiliau ac arholiadau, mae'n golygu cael sbort, hwyl a chwmni hefyd."

Gwybodaeth ac Ymholiadau

Mae Tîm Gwybodaeth ac Ymholiadau'r Comisiwn wedi cael ymhell dros fil o ymholiadau ar amrywiaeth mawr o bynciau. Mae'r wybodaeth hon wedi helpu i siapio blaenoriaethau polisi'r Comisiwn gan sicrhau bod y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Comisiwn yn cael ei sbarduno gan farn a phryderon pobl hŷn yng Nghymru heddiw.

Rydyn ni'n ymwybodol iawn na ddylen ni ddyblygu gwaith pobl eraill a byddwn yn cydweithio â sefydliadau eraill fel y bo'n briodol, er enghraifft â'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Os gallwn enwi sefydliad a all gynnig cymorth, byddwn yn cyfeirio'r ymholwyr atyn nhw yn uniongyrchol neu'n rhoi manylion cysylltu'r sefydliad perthnasol i helpu pobl hŷn i sicrhau'r wybodaeth a'r gwasanaethau y mae arnyn nhw eu hangen.

Pan fydd bobl yn cysylltu â'r Comisiwn i sôn am eu hanfodlonrwydd ar y driniaeth neu'r gwasanaeth y maen nhw wedi'u cael, gallwn geisio datrys y mater yn anffurfiol. Mae'r Comisiwn yn mynd ati i ymdrin â'r mater sydd wedi'i godi mewn modd diduedd. Hyd yn hyn, mae hyn wedi bod yn fuddiol i lawer o bobl hŷn a'u teuluoedd.

Dyma enghreifftiau o alwadau nodweddiadol sydd wedi dod i'r Tîm Gwybodaeth ac Ymholiadau. Mae'r manylion wedi'u newid er mwyn gwarantu bod pobl yn aros yn ddienw:

Portread: Pwysigrwydd gwybodaeth a chymorth

Mae Mr H yn 87 oed ac yn byw ar ei ben ei hun mewn cartref cymdeithas tai, lle mae'n teimlo ei fod yn agored i niwed. Roedd ar Mr H angen cymorth ynglŷn â phroblem roedd yn ei chael gyda chymydog. Ers pum mlynedd roedd cymydog Mr H wedi bod yn chwarae cerddoriaeth uchel yn gyson ac yn cyflymu injan ei gar drosodd a thro. Ar adegau, roedd y cymydog wedi'i sarhau ar lafar. Roedd Mr H wedi'i frawychu ac wedi'i ddrysu ynghylch beth fyddai'n digwydd iddo pe bai'n cwyno. Roedd yn credu y gallai'r gymdeithas tai ei droi allan o'i gartref pe bai'n protestio ynghylch beth oedd yn digwydd. ➤

Cysylltodd Mr H â'r Comisiwn, ac fe gysyllton ninnau â'r gymdeithas tai gan esbonio'r gofid eithriadol roedd y sefyllfa yn ei beri i Mr H a'r ffaith ei fod yn teimlo'n agored i niwed. Cafodd Mr H sicrwydd na fyddai'n cael ei droi allan, a helpodd y gymdeithas tai e i wneud cwyn.

Erbyn hyn, mae Mr H yn cael cymorth parhaus gan y gymdeithas tai a chysylltodd â'r Comisiwn yn ddiweddar i ddweud ei fod yn falch bod ei gŵyn wedi'i chymryd o ddifrif ac nad yw'n teimlo mor unig yn ei brofiad erbyn hyn. Bydd y Comisiwn yn pwyso am wasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth cynhwysfawr i holl bobl hŷn Cymru.

Portread: Yr angen am wybodaeth glir a phrydlon

Mae Mrs B yn gweithredu fel gofalwr i'w thad, sydd ag anabledd difrifol, ac roedd yn gofidio ynghylch yr amser aros hir ar gyfer amrediad o offer addasol angenrheidiol. Teimlai fod ei thad yn cael ei drin yn annheg gan ddarparwyr gwasanaethau lleol ac nad oedden nhw'n ateb ei anghenion critigol oherwydd yr ymateb araf.

Gofynnodd Mrs B am gyngor a chymorth annibynnol am ei bod yn teimlo nad oedd yn cael y maen i'r wal gyda'r awdurdod lleol. Cysylltodd y Comisiwn â'r awdurdod lleol ynghylch amserau aros ar gyfer addasiadau. Trefnodd yr awdurdod lleol becyn cymorth tra oedd Mrs B yn aros am yr offer angenrheidiol. Sicrhawyd Mrs B fod y broses o helpu ei thad wedi dechrau, gan leddfu ei phryderon. O ganlyniad i hynny, cysylltwyd â'r awdurdod lleol ynghylch amserau aros ar gyfer addasiadau. Trefnodd yr awdurdod lleol becyn cymorth tra oedd Mrs B yn aros am yr offer angenrheidiol. Sicrhawyd Mrs B fod y broses o helpu ei thad wedi dechrau, gan leddfu ei phryderon.

Roedd yn holl-bwysig bod Mrs B yn cael help i fynegi anghenion ei thad i'r awdurdod lleol. Fe gafodd hi hefyd fesur ehangach o ddealltwriaeth o sut i gael gafael ar wasanaethau hanfodol. Drwy'r mathau hyn o ymholiadau drwy ei gysylltiad â'r achosion hyn, a llawer o achosion eraill, mae'r Comisiwn yn sicrhau gwybodaeth bwysig am sefyllfaoedd pobl hŷn, sef gwybodaeth a fydd yn parhau i fwydo'n gwaith.

Ein gwaith ni o dan bob un o'n swyddogaethau cyfreithiol

Pedair swyddogaeth gyfreithiol sydd gan y Comisiwn:

- Hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru
- Hybu darpariaeth cyfleoedd i bobl hŷn yng Nghymru, a dileu gwahaniaethu yn eu herbyn
- Hybu'r arferion gorau wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru
- Adolygu pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru

Yn ein gwaith ni i gyd, rydyn ni'n anelu at sicrhau bod urddas a pharch yn egwyddorion isorweddol sy'n llywio'r driniaeth a'r gwasanaethau y mae pobl hŷn yn eu cael.

Hybu ymwybyddiaeth o fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru

Talu am Ofal

Yn Hydref 2008, croesawodd y Comisiwn y cyfle i bobl ymuno â'r drafodaeth bwysig ar ymgynghoriad Llywodraeth Cynulliad Cymru "Talu am Ofal yng Nghymru". Anogodd y Comisiwn bobl i gymryd rhan.

Ruth Marks: "Dyma drafodaeth eithriadol o bwysig a fydd yn effeithio nid yn unig arnon ni ond ar ein plant a'n hwyrion a'n hwyresau hefyd. Hoffwn eich annog i ddarllen y ddogfen ac ymateb iddi. Rwy'n credu ei bod yn holl-bwysig bod y systemau a gaiff eu sefydlu yn hawdd eu deall, yn hawdd eu cyrchu, ac yn deg i bawb."

Mae'r Comisiwn wedi mynd ati i ofyn barn pobl hŷn, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Grŵp Cynghori Talu am Ofal, cyfarwyddwyr awdurdodau lleol a sefydliadau a chyrff eraill. Rydyn ni wedi ymddangos yn rheolaidd yn y wasg i gynnig sylwadau ar faterion gofal, gan seilio'n sylwadau ar y dystiolaeth rydyn ni wedi'i chael gan bobl hŷn.

Mae'r Comisiwn wedi pwysleisio mor bwysig yw sicrhau bod gan bobl hŷn gyfle i gael gwybodaeth a gwasanaethau gofal. Mae angen i'r wybodaeth fod yn dryloyw ac yn llai cymhleth. Mae hyn yn adlewyrchu pryderon sy'n cael eu mynegi gan bobl hŷn a'u teuluoedd.

Tlodi Tanwydd

Cafodd y Comisiwn lawer iawn o ohebiaeth yn dweud wrthon ni fod pobl hŷn yn poeni na allen nhw fforddio talu eu biliau tanwydd. Siaradodd y Comisiwn yn gyhoeddus am effaith tlodi tanwydd ar fywydau pobl:

Ruth Marks: "Nid bai pobl hŷn yng Nghymru yw'r cynnydd byd-eang ym mhrisiau tanwydd a ddylen nhw ddim gorfod byw gan ofni'r oerfel."

Ym mis Tachwedd 2008 trefnodd y Comisiwn Uwchgynhadledd Tlodi Tanwydd, a dwyn ynghyd sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i hoelio sylw ar ba gamau a allai gael eu cymryd i helpu.

O ganlyniad i'r Uwchgynhadledd, bu'r Comisiwn yn gweithio mewn partneriaeth â Gofal a Thrwsio Cymru i anfon dros 13,000 o lythyrau i roi gwybod i bobl hŷn ledled Cymru am y Llinell Gymorth Cartrefi Cynnes. Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu pobl i fod yn fwy effeithlon wrth ddefnyddio ynni, gan arwain at arbed arian ar filiau tanwydd.

Roedd ymateb pobl hŷn ledled y wlad yn eithriadol o gadarnhaol.

"Mae'r systemau i gyd yn ymddangos mor gymhleth a thameidiog. Dwi'n berson proffesiynol, ac mae wedi cymryd oes i mi ddeall hawliau fy nhad, a dwi'n dal yn ansicr a ydw i'n gwneud y peth gorau iddo fe; mae'n eich blino chi."

Ysgrifennodd Mrs J lythyr diolch at y Comisiwn gan roi adborth am ei phrofiad gyda'r Llinell Gymorth:

"Rhoddodd y Llinell Gymorth Cartrefi Cynnes fi mewn cysylltiad â "HEES" (y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref) i fesur ar gyfer inswleiddio'r llofft.

Mae'r gwaith wedi'i wneud heddiw ac am ei fod yn llai na £500 fe gafodd ei wneud am ddim. Roeddwn i'n falch iawn bod y cyfan wedi cymryd llai na mis. Rwy'n ddiolchgar iawn am y cyfle i arbed ar fy nghostau gwres.

Gyda llawer o ddiolch..."

Hybu darpariaeth cyfleoedd i bobl hŷn yng Nghymru, a dileu gwahaniaethu yn eu herbyn

Mae pobl hŷn am weld diwedd ar wahaniaethu ar sail oed, yn enwedig mewn addysg bellach, cyflogaeth a'r ffordd y mae nwyddau a gwasanaethau'n cael eu darparu.

Portread: Gwahaniaethu Annheg ar Sail Oed

Mae rhai manylion wedi'u newid er mwyn gwarantu bod pobl yn aros yn ddienw.

Cysylltodd Mr P, dyn 64 oed, â'r Comisiwn gan ei fod yn teimlo ei fod yn wynebu gwahaniaethu ar sail oed yn y gweithle.

Roedd Mr P yn agosáu at oedran ymddeol arferol ac roedd wedi clywed gan ei gyflogwr y byddai disgwyl iddo ymddeol yn 65 oed. Apeliodd Mr P yn erbyn cais ei gyflogwr, ond bu'n aflwyddiannus.

Roedd Mr P yn gwbl iach ac yn gallu cyflawni dyletswyddau ei waith ac roedd yn credu bod safbwynt ei gyflogwr yn gwahaniaethu ar sail oed; yn enwedig felly yng ngoleuni'r ffaith y byddai swydd Mr P yn cael ei llenwi gan weithiwr newydd.

Yn ychwanegol, roedd Mr P yn credu y byddai'n cael effaith negyddol ar ei ansawdd bywyd petai'n cael ei orfodi i ymddeol. Ofnai y byddai'r ffaith ei fod yn 65 oed yn effeithio'n andwyol ar ei obaith o gael cyflogaeth arall. Bydd y Comisiwn yn parhau i bwyso am bolisïau ac arferion effeithiol sy'n mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oed yn ei holl ffurfiau.

Y Mesur Cydraddoldeb

Cyn i'r Mesur Cydraddoldeb gael ei gyflwyno i Senedd y Deyrnas Unedig yng Ngwanwyn 2009, gwahoddwyd y Comisiynydd i gynrychioli Cymru ar grŵp rhanddeiliaid Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer y Mesur Cydraddoldeb Sengl er mwyn sicrhau bod barn pobl hŷn yng Nghymru yn cael ei leisio.

Fel rhan o'r rôl hon, bu'r Comisiynydd yn cydgysylltu'n agos â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru a phartïon eraill sydd â buddiannau yn hyn o beth.

O'i rhoi mewn grym, gallai Deddf Cydraddoldeb wahardd gwahaniaethu ar sail oed wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau a chaniatáu i Ddyletswydd Cydraddoldeb Sengl gael ei chyflwyno yn y sector cyhoeddus. Mae'n holl-bwysig y dylai unrhyw ddatblygiad yn y polisi adlewyrchu'r angen i asesu gweithwyr ar sail rhagoriaeth yn hytrach nag oedran cronolegol.

Cynllun Cydraddoldeb Sengl Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae gwaith y Comisiwn yn cael ei arwain gan Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Personau Hŷn, ac rydyn ni'n credu bod y rhain yn arweiniad gwerthfawr i bob sefydliad y mae ei waith yn effeithio ar fywydau pobl hŷn.

Ym mis Ionawr 2009 anogodd y Comisiwn Lywodraeth y Cynulliad i gynnwys Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig yn eu Cynllun Cydraddoldeb Sengl. O ganlyniad i drafodaethau, fe gafodd yr Egwyddorion eu cynnwys yn y cynllun terfynol, sy'n golygu ein bod yn gallu edrych ar sut mae polisïau a chamau Llywodraeth y Cynulliad yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn yn y dyfodol.

Hybu'r arferion gorau wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru

Iechyd

Yn ystod 2008/09, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynlluniau ar gyfer ailstrwythuro'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru.

Achubodd y Comisiwn i'r eithaf ar y cyfle hwn gan bwysleisio bod angen i faterion pobl hŷn gael eu cynnwys a'u cydnabod yn llawn. Eglurodd y Comisiwn fod angen i arferion gorau wrth drin pobl hŷn fod yn ganolog i'r ffordd y mae'r GIG ailstrwythuredig yn gweithio.

"Rhaid cael perthynas ystyrlon, ymarferol rhwng y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol."

Ruth Marks: "Ar ôl ei ail-ddylunio, rhaid i'r GIG yng Nghymru fodloni anghenion pobl hŷn, nawr ac yn y dyfodol, a dylai hyn gael ei gydnabod yn iaith y drafodaeth ac yn y deilliannau terfynol.

Y ffordd orau i wasanaethu pobl hŷn yw cael ymagwedd holistig sy'n cysylltu iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau lleol yn ddi-fwlch, gan sicrhau'r canlyniadau gorau posibl ac osgoi dyblygu ymdrechion hefyd."

Cau Cartrefi Gofal

Mae'r posibilrwydd o gau cartrefi gofal wedi'i godi gyda'r Comisiwn fel mater sy'n effeithio'n ddirfawr ar y trigolion, eu teuluoedd a'u ffrindiau.

Cymerodd y Comisiynydd ran yn rhaglen BBC Radio Wales "Eye on Wales" i drafod y pryderon ynghylch cau cartrefi i bobl hŷn a chleifion dementia yng Nghymru. Dywedodd fod trawma sydd yn aml yn digwydd am eich bod yn gorfod symud i gartref gofal gwahanol. Pwysleisiodd hefyd ei bod yn hanfodol dilyn arferion da mewn gweithdrefnau ymgynghori a hybu rôl holl-bwysig hyrwyddwyr annibynnol.

Adolygu pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r gyfraith sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru

Cam-drin Pobl Hŷn

Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Comisiwn â'r Heddlu, Comisiwn y Gyfraith a Phwyllgor Cymreig y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol.

Ruth Marks yn y seminar "Ai deddfwriaeth newydd yw'r ateb i gam-drin pobl hŷn?" yn Ysgol Gyfraith Caerdydd: "Pobl hŷn sydd wrth wraidd popeth y mae'r Comisiwn yn ei wneud ac mae angen i ni bwyso a mesur pa mor effeithiol neu beidio yw'r polisi, y canllawiau, y gyfraith yn ôl eu heffaith ar bobl ac a ydyn nhw o fudd iddyn nhw neu beidio... dylen ni edrych ar botensial ataliol canllawiau a'r gyfraith, a'r arwyddion rydyn ni'n eu rhoi ynghylch yr hyn sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol."

Rhoddodd y Comisiwn dystiolaeth i Bwyllgor Deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth iddyn nhw bwyso a mesur y cynigion ar gyfer pwerau newydd i helpu gofalwyr a hybu eu lles.

Achubodd y Comisiwn ar y cyfle i gyfleu sylwadau pobl hŷn a oedd wedi'u mynegi yn ystod cyfarfodydd y Comisiynydd ledled y wlad.

Tystiolaeth Ruth Marks i'r Pwyllgor: "Un o'r prif gwynion rwy'n ei gael gan bobl ledled Cymru yw bod yr wybodaeth angenrheidiol i gael gwasanaethau yn rhy gymhleth. Rhaid i unrhyw Fesur a fydd yn deillio [o'r pŵer hwn]... hybu gwybodaeth sy'n ddealladwy i'r rhai y mae angen yr wybodaeth arnyn nhw a gosod dyletswydd ar y rhai sy'n creu gwybodaeth i ymgynghori â grwpiau defnyddwyr."

"Mae ar ofalwyr angen 'ffynhonnell gyfan' neu un rhif i'w ffonio i gael gwybod sut i helpu'r sawl maen nhw'n gofalu amdano."

Cerrig milltir – gweithgareddau mewnol

Ebrill 2008

Ruth Marks yn ymgymryd â'i swydd fel Comisiynydd Pobl Hŷn cyntaf Cymru.

Ebrill 2008 ymlaen

Y Comisiynydd yn cyfarfod ag unigolion a sefydliadau ledled Cymru i gael barn pobl hŷn

Hydref 2008

Symud i swyddfeydd parhaol yng Nghaerdydd

Tachwedd 2008

Sarah Stone yn dechrau gwaith fel Dirprwy Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

Tachwedd 2008

Adolygu rhychwant pwerau cyfreithiol y Comisiwn.

Tachwedd 2008 i Ionawr 2009

Datblygu'n cynllun strategol interim, sy'n nodi'n gweledigaeth.

Rydyn ni am weld Cymru lle mae parch i hawliau ac urddas pobl hŷn yn realiti ym mhob rhan o fywyd, lle mae gwahaniaethu ar sail oed yn perthyn i'r gorffennol a lle ceir agwedd gadarnhaol at heneiddio a phobl hŷn.

Ionawr 2009

Penodi Pwyllgor Archwilio i gyflawni swyddogaeth cefnogi a herio.

Ionawr 2009

Nodi'r blaenoriaethau o ran staffio er mwyn gwneud y gorau o'n pwerau cyfreithiol a chanolbwyntio ar y blaenoriaethau y mae pobl hŷn wedi sôn amdanyn nhw.

Chwefror 2009 ymlaen

Recriwtio staff.

Y tu hwnt i Gymru

Mae bob amser wedi bod yn bwysig i'r Comisiwn greu cysylltiadau â rhanddeiliaid a sefydliadau allweddol y tu allan i Gymru er mwyn caniatáu i wledydd eraill ddysgu oddi wrth brofiad Cymru ac er mwyn rhannu a lledaenu arferion gorau. Mae cyfarfodydd wedi'u cynnal ag aelodau o Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn San Steffan, gan gynnwys cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Paul Murphy AS.

Rydyn ni wedi cysylltu ag Eiriolwr Pobl Hŷn Gogledd Iwerddon, y Fonesig Joan Harbison, i drafod y materion ehangach sy'n effeithio ar bobl hŷn. Buom yn bresennol yn 9fed Cynhadledd Fyd-eang y Ffederasiwn Rhyngwladol ar Heneiddio ym Montreal, Canada ym mis Medi 2008 i annerch cynrychiolwyr o fwy na 30 o wledydd. Cafwyd cyfle hefyd i gyfarfod ag uwch swyddogion llywodraeth, i gydnabod mai Cymru yw'r wlad gyntaf i benodi eiriolwr annibynnol ar ran pobl hŷn.

Yn y Symposiwm Rhyngwladol ar Hawliau Pobl Hŷn yn Llundain ym mis Ionawr 2009 daeth llawer o randdeiliaid ynghyd sy'n gweithio tuag at wella bywydau pobl hŷn ledled y byd. Buom yn bresennol hefyd yng Nghynhadledd *Society Guardian* ar Ofal i Bobl Hŷn lle'r anerchodd y Comisiynydd y cynadleddwyr ar gynllunio ar gyfer gwasanaethau gofal.

Mae cyfleoedd i fynd i ddigwyddiadau a'u hannerch yn holl-bwysig er mwyn lledaenu'r negeseuon allweddol rydyn ni'n eu clywed gan bobl hŷn. Mae'n ein galluogi i greu cysylltiadau rhyngwladol sy'n amhrisiadwy ar gyfer y dyfodol wrth inni weithio i wella bywydau pobl hŷn yng Nghymru a'r tu hwnt.

Rhagolwg gan y Comisiynydd

"Rwy'n teimlo'n gyffrous iawn ynghylch y flwyddyn sy'n dod a byddaf yn cymryd rhagor o gamau i hybu hawliau a buddiannau pobl hŷn, ceisio rhoi diwedd ar wahaniaethu ar sail oed, rhoi hwb i rannu arferion gorau a pharhau i adolygu pa mor ddigonol ac effeithiol yw'r gyfraith. I helpu i wneud hyn, fe wna i'r canlynol:

- Rhoi blaenoriaeth i'r meysydd y mae pobl hŷn yn dweud wrtha i mai dyna'r pryder mwyaf iddyn nhw
- Adolygu'r gyfraith, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddiogelu pobl hŷn mewn sefyllfaoedd y maen nhw'n agored i niwed ynddyn nhw
- Herio gwahaniaethu ar sail oed, stereoteipiau negyddol a gwasanaeth gwael
- Mynegi llais a phryderon pobl hŷn i wneuthurwyr polisïau
- Craffu ar ddatblygiadau newydd mewn polisïau a gwasanaethau i sicrhau eu bod yn addas at eu diben
- Gwrando ar bobl hŷn a chyfarfod â nhw mewn cynifer o gymunedau a sefydliadau â phosibl ac ymgynghori â nhw am fy nghynllun gwaith
- Lledaenu'r arferion gorau er mwyn hybu urddas, iechyd, lles ac annibyniaeth
- Ymchwilio i'r heriau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu, nawr ac yn y dyfodol, yn enwedig ynglŷn ag arian a chymorth
- Dadlau o blaid gwir ddewis a gwybodaeth glir
- Comisiynu arfarniad annibynnol i brofi effaith ein gwaith
- Ystyried pa mor ddigonol yw'r trefniadau cyfredol ar gyfer cwynion, chwythu'r chwiban ac eiriolaeth
- Sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o sut mae gwneud gwahaniaeth gwirioneddol ac ymarferol i fywydau pobl hŷn
- Ymchwilio i'r heriau y mae pobl hŷn yn eu hwynebu, nawr ac yn y dyfodol
- Mynegi llais a phryderon pobl hŷn i wneuthurwyr polisïau
- Cydweithio ag eraill i sicrhau fy mod yn defnyddio fy adnoddau i'r eithaf ac yn sicrhau canlyniadau i bobl hŷn yng Nghymru

Bydd Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Personau Hŷn yn dal i arwain ein gwaith ac i osod y safon rydyn ni'n credu y dylai pob polisi gael ei farnu yn ei herbyn."

Diolch a chydnabod

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi rhoi cymorth, cyngor a chyfarwyddyd dros y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig yr holl bobl hŷn sydd wedi bod mewn cysylltiad â ni a chynrychiolwyr y sefydliadau cenedlaethol i bensiynwyr yng Nghymru, sy'n chwarae rhan mor werthfawr wrth ddatblygu'n strategaeth a'r blaenoriaethau inni sy'n dod i'r amlwg.

Hoffwn ddiolch yn benodol i'r sefydliadau canlynol am eu help wrth symud ein gwaith a'n blaenoriaethau yn eu blaen:

- Age Concern Cymru a Help the Aged yng Nghymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Cynghorwyr Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Cyngor ar Bopeth Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cydlynwyr Strategaeth a Hyrwyddwyr Pobl Hŷn ledled Cymru
- Cynrychiolwyr Sefydliadau Cenedlaethol i Bensiynwyr yng Nghymru
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Gofal a Thrwsio Cymru
- Y Gwasanaeth Pensiwn
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn enwedig y Gyfarwyddiaeth Polisi Pobl Hŷn a Gofal Hirdymor
- Mudiadau Age Concern ledled Cymru
- Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus
- Prime Cymru
- Pwyllgor Archwilio Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Rhwydwaith Ymchwilio a Datblygu Pobl Hŷn a Heneiddio (OPAN Cymru)
- Sefydliad Bevan
- Sefydliad Joseph Rowntree
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Tîm Staff Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- TUC Cymru

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 08/09

Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2009 ar wefan Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn www.olderpeoplewales.com neu drwy gysylltu â ni i ofyn amdanyn nhw, drwy anfon neges e-bost at gofyn@olderpeoplewales.com neu drwy ffonio 08442 640670.

Nacâd

Does dim cysylltiad rhwng unrhyw un o'r ffotograffau yn yr Adolygiad Blynyddol hwn a'r portreadau a'r cysylltiadau a grybwyllir yn yr adolygiad.

Mae'r portreadau i gyd yn cyfeirio at enghreifftiau nodweddiadol o'r wybodaeth y byddwn yn ei chael, yn hytrach nag achosion penodol, er mwyn gwarantu bod pobl sy'n cysylltu â'r Comisiwn yn aros yn ddienw.